# Mewnforio halen neu gynhyrchion sodiwm isel a ddefnyddir yn lle halen

Canllawiau ar ychwanegion, labelu, deunydd pecynnu a hylendid wrth fewnforio cynhyrchion halen.

## Gwybodaeth gyffredinol

Mae'n rhaid i halen, neu gynhyrchion sodiwm isel a ddefnyddir yn lle halen, o drydydd gwledydd fodloni'r un safonau a gweithdrefnau hylendid bwyd a chyfansoddiad, neu rai cyfwerth, â bwyd a gynhyrchir ym Mhrydain Fawr. Fel arfer, nid oes angen tystysgrif iechyd arnoch chi i fewnforio halen.

## Ychwanegion

I gael gwybodaeth am ychwanegion bwyd a ddefnyddir fel asiantau gwrth-galedu neu unrhyw ychwanegion bwyd eraill a ddefnyddir mewn halen neu ddewisiadau sodiwm isel, cysylltwch â'n Tîm Ychwanegion Bwyd.

## Labelu

Mae gwybodaeth gyffredinol am labelu bwyd ar gael ar wefan GOV.UK.

I gael cyngor ar labelu cynhyrchion penodol, ewch i GOV.UK i ddod o hyd i'ch Adran Safonau Masnach neu Adran Iechyd yr Amgylchedd lleol.

## Deunydd pecynnu

Mae deunyddiau ac eitemau a ddaw i gysylltiad â bwyd, gan gynnwys y rhai a ddefnyddir ar gyfer pecynnu bwyd, yn cael eu rheoli gan gyfraith y Deyrnas Unedig (DU) a ddargedwir (retained UK law) ym Mhrydain Fawr. Mae'r ddeddfwriaeth yn arbennig o drylwyr wrth reoli deunyddiau ac eitemau plastig y bwriedir eu defnyddio gyda bwyd. I gael gwybodaeth am ddiogelwch deunydd pecynnu, cysylltwch â'r Tîm Deunyddiau a Ddaw i Gysylltiad â Bwyd.

## Hylendid bwyd

Os oes gennych chi unrhyw ymholiadau cyffredinol am hylendid bwyd, cysylltwch â'r Tîm Polisi Hylendid Bwyd.

## Plaladdwyr

Gallwch ddod o hyd i wybodaeth am lefelau diogelwch plaladdwyr ar gyfer mewnforion ar wefan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE).

## Halogion

Mae Rheoliadau Halogion mewn Bwyd (Cymru) 2013 yn darparu ar gyfer deddfu a gorfodi cyfraith y DU a ddargedwir sy'n gosod terfynau rheoleiddio ar gyfer halogion mewn bwyd, fel nitrad, mycotocsinau, metelau, 3-MCPD, deuocsinau a hydrocarbonau aromatig polysyclig neu PAHs.

Darllenwch ein canllawiau ar gyfer busnesau ar ddiogelwch cemegol.

## Cymdeithas Halen

Gallwch chi gysylltu â'r Gymdeithas Halen i gael gwybodaeth am safonau'r DU ar gyfer halen.

## Cysylltiadau Tîm

**Tîm Polisi Hylendid Bwyd**

foodhygiene.policy@food.gov.uk